# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2018

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Richard O Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Richard Griffiths, Glyn Haynes, K P Hughes, T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, Cynghorydd R.Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, R G Parry OBE FRgS, Shaun James Redmond, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau),<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151,<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr A M Jones, Dylan Rees a J A Roberts. |

Etholwyd y Cynghorydd G O Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod oherwydd fod ymddiheuriad wedi ei dderbyn gan Is-gadeirydd y Cyngor Sir.

### 1. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol o Gyngor Sir Ynys Môn a gafwyd ar 12 Rhagfyr, 2018 yn gywir.

### 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Gwnaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Swyddogaeth Adnoddau a Busnes y Cyngor ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 11 – Datganiad Polisi Tâl 2018 ac nid oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth neu bleidlais arni.

Gwnaeth y Cynghorydd Ieuan Williams ddatganiad o ddiddordeb personol yn Eitem 8 – Y Gyllideb ar gyfer 2018/19 a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol ac ar ôl cael cyngor cyfreithiol, fe gymerodd ran yn y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU’R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol :-

- Dymunwyd yn dda i Mr Scott Rowley, y Pennaeth Trawsnewid a fydd yn gadael yr awdurdod a diolchodd y Cadeirydd iddo am ei wasanaethau i’r Cyngor;
- Dymunwyd yn dda i Mrs Delyth Molyneux, y Pennaeth Dysgu a fydd yn gadael yr awdurdod a diolchodd y Cadeirydd iddi am ei wasanaethau i’r Cyngor.
- Llongyfarchwyd Mr Arwyn Williams sydd wedi cael ei benodi fel y Pennaeth Dysgu newydd;
- Yn ogystal, llongyfarchwyd Mr Ned Michael sydd wedi cael ei benodi fel y Pennaeth Gwasanaethau Tai newydd;
- Llongyfarchwyd tri o bysgotwyr o Gaergybi - James Frazer, Alan Hughes a Garry Wood a fydd yn cynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Pysgota Traeth y Byd a gynhelir yng Ngogledd Cymru rhwng 20-27 October, 2018. Dyma fydd y tro cyntaf i’r gystadleuaeth gael ei chynnal yng Nghymru a bydd pysgotwyr o bedwar ban byd yn mynychu;
- Llongyfarchwyd Tîm Pêl-droed Cerdded Amlwch dros 50 oed a fu’n llwyddiannus mewn cystadleuaeth yng Nghaer yn ddiweddar. Bydd y Tîm yn cystadlu yn rownd nesaf y gystadleuaeth ym Manceinion yn y man.
- Estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau am wellhad buan i’r Cynghorydd J Arwel Roberts a oedd wedi cael anaf yn ddiweddar.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno atgoffa pawb i alw ar eu cymdogion hŷn ac anabl yn ystod y tywydd garw a ddisgwylir dros yr ychydig ddyddiau nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cyngor y cynhelir Noson Elusennol y Cadeirydd ar 20 Ebrill 2018 yn Amlwch a nododd y bydd manylion y noson yn cael eu hanfon at Aelodau a Gwesteion yn y man.

* * * * * *

Cydymdeimlwyd â’r Cynghorydd Aled Morris Jones a oedd wedi colli ei fam-yng-nghyfraith yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â’r Cynghorydd Richard A Dew a oedd wedi colli ei dad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o’r Cyngor neu staff a oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a’r Swyddogion mewn teyrnged dawel fel arwydd a’u parch a’u cydymdeimlad.

## 4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd – y cwestiwn canlynol y cafwyd rhybudd ohono gan y Cynghorydd Peter Rogers i'r Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS, y Deilydd Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo :-

*'Pan fydd yr Awdurod hwn yn rhoi Rhybuddion yn Unol ag Adran 25 Deddf Draenio Tir, 1991 ar berchnogion tir gyda draeniad yn rhedeg i gyrsiau dŵr, a yw hi'n orfodol i'r ffosydd gael eu ffensio?'*

Ymatebodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo drwy ddweud nad yw'n orfodol, yn unol â Deddf Draenio Tir 1991, i berchenogion sydd â llif yn draenio i gyrsiau dŵr ffensio unrhyw ffosydd.

Roedd y Cynghorydd Peter Rogers o'r farn y dylai ffensio ffosydd fod yn orfodol oherwydd y llifogydd eithafol a gafwyd diwedd y flwyddyn ddiwethaf.

## 5. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd - y Rhybuddion o Gynigiad isod gan :-

- **Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones**

  *"Mae Porthladd Caergybi yn fusnes economaidd mor bwysig i ni yma yn Ynys Môn, ac mae angen i ni fel Cyngor arwain o ran ceisio sicrhau BREXIT MEDDAL ar gyfer y ffin rhwng Cymru a Gweriniaeth Iwerddon. Rydym ni fel grŵp yn galw am gymryd y camau canlynol :-*

  1. *Bod llythyr yn cael ei anfon gan y Cyngor hwn at Gyngor Dinas Dulyn yn mynegi ein dymuniad a'n cefnogaeth i weld ffin rydd yn parhau rhwng ein dwy wlad gyda gwahoddiad iddynt anfon cynrychiolaeth drosodd i siarad â ni ac er mwyn i ni arddangos ein dymuniad i barhau i gydweithio â'n gilydd.*
  2. *Bod gwahoddiad yn mynd allan i'n cynrychiolwyr yn San Steffan a Chaerdydd yn eu gwahodd i ymweld â ni er mwyn i ni gael gwybod beth maent yn ei wneud i bwyso am ffin mor agored â phosibl rhwng ein dwy wlad.*

  *Dim ond drwy ymgysylltu ag ysbryd y bobl y gallwn sicrhau datrysiad o werth i'r argyfwng hwn a allai gael effaith ddinistriol ar borthladd Caergybi a Phorthladd Dulyn."*

Eiliodd y Cynghorydd Bryan Owen y cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones ei fod ef a nifer o bobl eraill yn bryderus ynghylch yr effaith a gaiff bargen Brexit ar yr Ynys. Dywedodd bod angen i'r Awdurdod hwn gysylltu gyda Chyngor Dinas Dulyn i sicrhau bod modd i'r traffig sy'n teithio i ac o Borthladdoedd Cymru gael rhwydd hynt heb yr angen am wiriadau tollau. Er mwyn mabwysiadu'r ymagwedd iawn ar ôl gadael yr UE, dywedodd bod angen i'r ddau Gyngor weithio gyda'i gilydd er mwyn atal tagfeydd traffig o gwmpas Porthladd Caergybi oherwydd prosesau tollau. Dywedodd fod parhau i fasnachu gydag Iwerddon yn hollbwysig i'r economi leol ac er mwyn sicrhau cyflogaeth ar

gyfer pobl leol ym Mhorthladd Caergybi. Gofynnodd y Cynghorydd Jones i'r Cyngor gefnogi bod llythyr yn cael ei anfon at Brif Weithredwr Cyngor Dinas Dulyn yn gofyn am gyfarfod rhwng y ddau awdurdod i ddangos parodrwydd i weithio gyda'i gilydd i sicrhau ffiniau rhydd rhwng y ddwy wlad. Dywedodd bod angen i wleidyddion roi gwybod i'r awdurdod hwn am y gweithdrefnau a fydd yn cael eu sefydlu er mwyn gwarchod llif rhydd traffig rhwng Caergybi ac Iwerddon.

Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd ei fod yn cytuno ynghylch pwysigrwydd Porthladd Caergybi i economi'r Ynys a'i fod yn pryderu am yr ansicrwydd a'r heriau a ddaw i'r Porthladd yn sgil Brexit. Dywedodd ei fod ef, fel Aelod Portffolio, wedi cael cyfarfod gyda Capten Wyn Parry, Pennaeth Gweithrediadau Môr Iwerddon Stena i leisio pryderon am ddyfodol y Porthladd. Dywedodd ymhellach ei fod wedi anfon llythyr ym mis Tachwedd 2017 at Mr David Davies AS, y Gweinidog dros Adael yr Undeb Ewropeaidd a Mr Alun Cairns AC, Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn mynegi pwysigrwydd y Porthladd i economi Ynys Môn ac i sicrhau cyflogaeth. Mae 650 o bobl yn cael eu cyflogi yno ar hyn o bryd ac mae 80% o'r swyddi hynny yn rhai amser llawn. Soniodd hefyd ei fod wedi codi ymhellach a oedd yr isadeiledd priodol gan gynnwys rheolau ffiniau newydd a gwiriadau tollau yn eu lle ac a oedd digon o le o fewn ffiniau'r Porthladd i gynnal gwiriadau o'r fath. Dywedodd hefyd fod Porthladd Caergybi o bwys rhyngwladol i Gymru a'r DU ac mai hwn yw'r trydydd porthladd prysuraf yn y DU o ran nifer teithwyr a cheir yn cario teithwyr. Y Porthladd yw'r seithfed prysuraf yn y DU o ran cario cerbydau nwyddau a thraffig trelar ac mae'n cludo 76% o'r unedau nwyddau 'roro' sy'n mynd drwy borthladdoedd Cymru. Y Porthladd yw'r un prysuraf yng Nghymru o ran llongau mordeithiau ac fe groesawyd 43 o longau i'r ardal. Roedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi ymateb ac wedi nodi bod y Prif Weithredwr yn ddiweddar wedi amlinellu'r bwriad i gadw'r Ardal Deithio Gyffredin (ardal ffiniau agored sy'n cynnwys Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Iwerddon, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel). Bwriad Llywodraeth y DU yw sicrhau bod traffig yn parhau i lifo'n rhydd yn holl borthladdoedd y DU gyda rheoliadau a gweithdrefnau tollau newydd i sicrhau masnachu esmwyth. Mae Swyddogion o Swyddfa Cymru, Refeniw a Thollau EM a'r Adran Drafnidiaeth wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Lu'r Ffiniau a Stena Line i drafod goblygiadau ymarferol Brexit a'r modd y gellid eu lliniaru. Mae gweithgor newydd wedi cael ei sefydlu dan arweiniad Refeniw a Thollau EM, sef 'Gweithgor Cynllunio Ffiniau Porthladdoedd a Meysydd Awyr Cymru' i ystyried y pwysau ar borthladdoedd ar ôl gadael yr UE. Gallai hwn fod yn gyfnod cyffrous i'r Ynys, gyda'r posibilrwydd y bydd datblygiad Wylfa Newydd yn creu manteisio sylweddol a pharhaol. Ni ddylai newidiadau i'r modd y rheolir ffiniau gyfyngu ar y cyfleoedd hyn na'n gweledigaeth ar gyfer y Porthladd fel un o bwys strategol i'r Deyrnas Unedig yn dilyn Brexit. Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones ei fod yn llwyr gefnogi'r cynnig a oedd gerbron y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd Bryan Owen a oedd bwriad i wahodd cynrychiolwyr o Gyngor Dinas Dulyn i gyfarfod i drafod goblygiadau Brexit a'i effaith ar Borthladd Caergybi. Dywedodd bod angen i'r Cyngor hwn fod yn rhagweithiol o ran symud trafodaethau yn eu blaenau gyda Dulyn. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd y bydd yn gwahodd cynrychiolwyr o Gyngor Dinas Dulyn i gyfarfod i drafod y pryderon ynghylch effaith Brexit ar

Borthladd Caergybi a rhoes sicrwydd y byddai'n rhoi gwybod i Aelodau'r Cyngor hwn am ganlyniadau'r trafodaethau hyn yn y man.

Dywedodd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE fod ganddo bryderon y bydd y llongau o Borthladd Dulyn sy'n cario teithwyr a chynwysyddion yn teithio'n uniongyrchol i Ffrainc a Gwlad Belg wedi i'r Deyrnas Unedig adael yr UE. Dywedodd ei bod hi'n allweddol bwysig i'r trafodaethau gyda Chyngor Dinas Dulyn gael eu cynnal cyn gynted ag sy'n bosibl.

Er nad oedd yn erbyn y cynigiad, dywedd y Cynghorydd Shaun Redmond ei bod yn ymddangos fod yr Aelodau'n teimlo mai'r unig ffordd o ddatrys y problemau posibl ym Mhorthladd Caergybi fyddai gwrthdroi pleidlais Brexit. Dywedodd y Cynghorydd Redmond nad oedd yn ymwybodol o'r hyn a olygir gan Brexit caled neu feddal a bod angen gwarchod Porthladdoedd megis Caergybi wrth ddod allan o'r UE. Mae angen i wleidyddion o'r naill ochr a'r llall i Fôr Iwerddon a Brwsel gychwyn trafodaethau. Ymatebodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd fod angen edrych yn gadarnhaol i'r dyfodol oherwydd fe ddaw heriau yn sgil Brexit ond sicrhau'r gorau i'r Ynys yw'r flaenoriaeth.

**Yn y bleidlais ddilynol, PENDERFYNWYD cefnogi'r rhybudd o gynigiad.**

- **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas**

  Bod Cyngor Ynys Môn :-

  1. yn annog mentrau di-blastig ac yn hyrwyddo a chefnogi digwyddiadau.
  2. yn gweithio tuag at lleihau defnydd o blasting untro ar ei safleoedd ac yn ei ysgolion.
  3. Yn annog busnesau i ddefnyddio llai o blasting untro.
  4. Yn ethol cynrychiolaeth ar y Grŵp Arfordir di-blastig.

  Eiliodd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE y cynnig

  Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas fod cael gwared ar blastigau untro yn broblem ddifrifol y mae angen rhoi sylw iddo. Dywedodd iddo ddod yn ymwybodol o'r broblem tra'n cerdded ar draeth Trearddur un bore pan welodd forlo mewn helynt oherwydd fod bag plastig yn sownd yn ei geg; dywedodd ei fod yn brofiad torcalonnus. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod problem plastig yn ein moroedd wedi cael sylw yn y cyfryngau yn ddiweddar oherwydd ymdrechion Syr David Attenborough, sydd wedi amlygu'r perygl y mae gwastraff yn ei achosi i fywyd morol yn ei raglen bywyd gwyllt, Blue Planet II a ddarlledwyd gan y BBC. Dywedodd ymhellach bod raid i agweddau newid mewn perthynas â chael gwared ar blastig a gwastraff ac mae angen i wleidyddion, y sectorau cyhoeddus a phreifat weithio gyda'i gilydd i leihau'r defnydd o blastig untro ac i wella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dangosodd y Cynghorydd Thomas wahanol enghreifftiau o blastigau untro i'r Cyngor ynghyd ag enghreifftiau o ddeunyddiau pydradwy megis gwelltynnau cardbord a ffyn cotwm. Dywedodd fod angen i archfarchnadoedd ailystyried yr angen am gymaint o becynnu plastig ar eu nwyddau a bod angen i bysgotwyr feddwl ddwywaith cyn cael gwared â thacl pysgota a rhaffau i'r môr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Thomas at gyfarfod lansio a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2018 yn yr Oystercatcher, Rhosneigr a drefnwyd gan y Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth – Ynys Môn. Roedd Mr Albert Owen AS a Mr Rhun ap Iorthwerth AC yn bresennol ac fe ymrwymodd pawb a oedd yn bresennol i gefnogi ymgyrch 'Ynys Môn Di-blastig'. Dywedodd ei fod yn gobeithio y gall Ynys Môn fod yr ardal ddi-blastig gyntaf yng Nghymru a bod angen addysgu plant yn ysgolion yr awdurdod mewn perthynas â chael gwared ar blastig untro.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ei fod yn cyd-fynd yn llwyr â'r ymgyrch i leihau'r defnydd o blastig a ddefnyddir am yr untro a bod addysg yn yr ysgolion mewn perthynas ag ailgylchu a lleihau'r defnydd o blastig yn allweddol bwysig. Nododd fod yr Adain Wastraff eisoes yn mynd i ysgolion i addysgu plant ynghylch pwysigrwydd ailgylchu a lleihau'r defnydd o blastigau a'r peryglon y mae'r plastigau hyn yn eu hachosi i fywyd gwyllt.

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen bod yr Wrth-blaid yn gwbl gefnogol o'r ymgyrch yn erbyn defnyddio plastig untro. Dywedodd fod yr Wrth-blaid wedi cysylltu gyda Mr Richard Walton, Amgylcheddwr sydd wedi cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd a Gwastraff ac sydd wedi cynhyrchu logo dwyieithog, sef 'Codwch y Plastic - Pick up the Plastic' ac arno lun o bysgodyn gyda deigryn yn ei lygad a photel blastig yn ei stumog. Gofynnodd yr Wrth-blaid a fedrai'r Cyngor fabwysiadu'r logo hwn ac iddo gael ei roi ar bob un o arwyddion y Cyngor ar hyd a lled yr Ynys.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y logo a gynhyrchwyd gan Mr Walton wedi cael ei dderbyn yn y Saesneg yn unig i ddechrau ond ei fod erbyn hyn wedi cael ei gyfieithu. Fel Arweinydd, roedd hi eisoes wedi trafod gyda'r Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff, y posibilrwydd o rannu'r logo hwn gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd. Cadarnhawyd hyn a bydd sticeri'n cael ei rhoi ar arwyddion ar draethau ac unrhyw arwyddion eraill sydd gan y Cyngor Sir. Dywedodd ymhellach fod yr Aelodau Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Phrosiectau Mawr a Datblygu Economaidd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Adran Briffyrdd er mwyn symud yr ymgyrch hon yn ei blaen.

Dywedodd y Cynghorydd Carwyn Jones fod yr ymgyrch ar gyfer Ynys Môn Ddi-blastig yn ennill momentwm a bod pobl eisiau gwarchod yr amgylchedd a bywyd gwyllt. Dywedodd ei fod yn bryderus fod siopau yn gwthio cynigion ar nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn gormod o lawer o blastig untro; mae'n ddyletswydd gorfforaethol ar y cwmnïau hyn i leihau'r defnydd y maent yn ei wneud o blastig i becynnu nwyddau. Dywedodd y Cynghorydd Jones ymhellach fod gan y Cyngor gytundeb ar y cyd gyda 'Cadwch Gymru'n Daclus' a Cyfoeth Naturiol Cymru i gadw traethau'n lân a hynny mewn ymgynghoriad gyda Syrffwyr yn erbyn Carthffosiaeth.

Cynigiodd yr Arweinydd welliant i'r cynigiad, sef bod y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn cael ei enwebu i wasanaethu ar y Grŵp Arfordir Di-blastig. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Ieuan Williams.

**Yn y bleidlais ddilynol, PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynigiad gyda gwelliant bod y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas yn cael ei enwebu fel cynrychiolydd ar y Grŵp Arfordir Di-blastig.**

- **Y Cynghorydd Nicola Roberts**

*"Mae'r Cyngor hwn yn galw :-*

1. *Ar Lywodraeth y DU i ohirio cyflwyno'r Credydd Cynhwysol ;*
2. *Ar Lywodraeth Cymru i fynnu pwerau datganoli i amrywio'r modd y telir Credydd Cynhwysol yng Nghymru.*

Eiliodd y Cynghorydd R Meirion Jones y cynnig.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts y daw'r Credyd Cynhwysol i rym yn Ynys Môn ym mis Mehefin eleni. Mynegodd ei phryderon difrifol am y caledi ariannol y bydd hyn yn ei achosi i deuluoedd ac unigolion. Cafwyd ar ddeall fod pobl, yn dilyn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn Sir y Fflint, wedi bod yn disgwyl am 12 i 16 wythnos i'w Credyd Cynhwysol gael ei drefnu ac i dderbyn taliadau. Dywedodd ymhellach fod y system ar gyfer ymgeisio am Gredyd Cynhwysol yn gymhleth a bod y ffurflenni'n electronig. Nid oes gan rai pobl fynediad i gyfrifiaduron a chysylltiad rhyngrwyd sy'n golygu bod raid iddynt fynd i'w llyfrgelloedd lleol a swyddfeydd yr awdurdodau lleol. Dywedodd y Cynghorydd Roberts fod angen i Llywodraeth y DU ohirio cyflwyno Credyd Cynhwysol ac y dylai Llywodraeth Cymru fynnu ar bwerau datganoledig er mwyn newid y modd y mae Credyd Cynhwysol yn cael ei dalu yng Nghymru. Nododd fod Llywodraeth Yr Alban wedi cael mwy o bwerau datganoledig na Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflwyno Credyd Cynhwysol.

Ymatebodd y Cynghorydd Alun Mummery, yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Tai ei fod yn cefnogi'n llwyr yr angen i ohirio cyflwyno Credyd Cynhwysol ar yr Ynys. Roedd i fod i gael ei gyflwyno yn Ebrill 2018 ond mae wedi ei ohirio hyd fis Mehefin. Dywedodd fod Cadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi anfon llythyr ar ran yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru yn gofyn i Lywodraeth y DU ohirio ymhellach y bwriad i gyflwyno Credyd Cynhwysol hyd oni fydd gwelliannau wedi cael eu gwneud a phrofiadau cleientiaid yn yr ardaloedd hynny ble mae Credyd Cynhwysol eisoes wedi cael ei gyflwyno, wedi cael eu cymryd i ystyriaeth. Cafwyd ymateb yn Rhagfyr 2017 gan Mr Damian Hinds MP, y Gweinidog ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau yn nodi na fydd unrhyw ohirio gyda chyflwyno Credyd Cynhwysol ac yn nodi rhai mân newidiadau yn unig megis galwadau ffôn gwasanaethau cwsmer yn rhad ac am ddim. Dywedodd ei fod o'r farn y dylid ymdrin ag ail ran y rhybudd o gynigiad i'r Cyngor yn unol â gweithdrefnau gwleidyddol.

Dywedodd y Cynghorydd Mummery ymhellach fod yr Adran Dai wedi trefnu cyfres o gyfarfodydd hyb briffio ar gyflwyno Credyd Cynhwysol a bod gwahoddiad i unrhyw un fynychu'r cyfarfodydd hynny. Roedd presenoldeb yn dda yn y cyfarfodydd hyb hyn dros y 7 mis diwethaf gyda sefydliadau allanol yn cyfrannu atynt a chynrychiolwyr o Swyddfeydd yr Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad hefyd wedi mynychu'r cyfarfodydd fel y gallant helpu a chefnogi pobl

pan fydd Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ym mis Mehefin. Dywedodd y bydd 5,000 o hawlwyr yn disgwyl i gael eu trosglwyddo i'r system Credyd Cynhwysol a bod yr Adran Gwaith a Phensiynau eisoes wedi gweithredu'r system yn achos 526 o bobl sengl dan 35 oed. Dygodd y Cynghorydd Mummery sylw at yr adnoddau isod sydd wedi cael eu sefydlu er mwyn cefnogi hawlwyr:-

- Bydd 8 o hybiau cyfrifiadurol wedi cael eu cyflwyno mewn gwahanol leoliadau ar yr Ynys;
- Bydd yr ymgyrch 'Dewch â Thun Bob Mis' yn cefnogi banciau bwyd ac mae nifer o bartneriaid yn y sector cyhoeddus wedi cytuno i fod yn rhan o'r ymgyrch;
- Anfonwyd holiadur i asesu sgiliau cyfrifiadurol ac mae hynny wedi datgelu bod sgiliau TG yn well na'r disgwyl;
- Sioe Deithiol o gwmpas yr Ynys gyda gwybodaeth am Gredyd Cynhwysol a gwybodaeth wedi cael ei rhannu gyda'r Cynghorau Tref/Cymuned mewn perthynas â'r sioeau teithiol hyn;
- Bydd taflen wybodaeth yn cael ei chylchredeg i drigolion yr Ynys;
- Hyfforddiant ar gyfer 80 o weithwyr drwy'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi ymysg Plant;
- Mae aelod o staff yn treulio hanner diwrnod yr wythnos mewn Canolfannau Gwaith yn rhannu gwybodaeth ynghylch cyflwyno Credyd Cynhwysol.

Dywedodd y Cynghorydd Mummery ei fod hefyd yn pryderu am effaith cyflwyno Credyd Cyffredinol ar deuluoedd bregus gyda'r posibilrwydd y bydd plant yn gorfod mynd heb fwyd. Dywedodd hefyd fod rhai landlordiaid preifat yn dal i fod heb eu cofrestru er mwyn cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014 ac y gallai hynny arwain at weld rhai teuluoedd yn cael eu troi allan o'u cartrefi tra'n disgwyl i'w Credyd Cynhwysol gael ei gadarnhau.

Dywedodd y Cynghorydd Nicola Roberts ei bod yn derbyn bod llwyfan helaeth ar gyfer trafod datganoli pwerau ond holodd pam y dylai pobl yr Alban gael mwy o hawliau na phobl Cymru. Cyflwynir Credyd Cyffredinol ar yr Ynys ym mis Mehefin sydd oddeutu'r un amser â gwyliau haf yr ysgolion; ac mae'n ffaith bod y pwysau ar fanciau bwyd yn llawer uwch yn ystod gwyliau'r ysgol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, fel yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, ei bod hi hefyd yn pryderu ynghylch effaith cyflwyno'r Credyd Cynhwysol ar deuluoedd a phlant bregus. Dywedodd ei bod hi'n fodlon fel Arweinydd y Cyngor i anfon unrhyw lythyrau i ofyn am ohirio cyflwyno Credyd Cyffredinol ar yr Ynys.

**Yn y bleidlais ddilynol PENDERFYNWYD bod y cynnig yn cael ei gymeradwyo.**

*(Ymataliodd y Cynghorwyr KP Hughes, Shaun Redmond a Peter Rogers eu pleidlais).*

## 6. CYFLWYNO DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Roberts ddeiseb gydag oddeutu 370 o lofnodion i Gadeirydd y Cyngor Sir gan drigolion Biwmares, ynghyd â rhieni, llywodraethwyr, staff a ffrindiau Ysgol Gynradd Biwmares sy’n gwrthwynebu cau Ysgol Gynradd Biwmares.

Derbyniodd y Cadeirydd y ddeiseb a dywedodd y byddai’n ei hanfon i’r Pwyllgor Gwaith fel rhan o’r drafodaeth ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol.

## 7. POLISI CYMORTH DEWISIOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror, 2018.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Cyngor llawn eisoes yn darparu Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor yn unol ag Adran 13A (1) (b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a bod y Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor yn bolisi ar wahân ac yn annibynnol o’r Cynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor. Yn yr adroddiad, ystyriwyd yr ymagwedd y gellir ei mabwysiadu i ddarparu cymorth ariannol i bobl ifanc sy'n gadael gofal tuag at unrhyw rwymedigaeth a all fod ganddynt i dalu treth gyngor, ynghyd ag ymestyn y cyfnod lle nad yw premiwm y Dreth Gyngor yn berthnasol dan rai amgylchiadau h.y. lle mae'r eiddo wedi bod yn wag am gyfnod hir a bod gwaith strwythurol yn mynd rhagddo ar yr eiddo i’w wneud yn addas i bobl fyw ynddo. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at y polisi ar gyfer caniatáu pwerau dirprwyedig i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i ymdrin â cheisiadau fesul achos.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, fel yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol, ei bod yn credu ei bod hi'n bwysig cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal gan fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol fel rhieni corfforaethol tuag at y bobl ifanc hyn. Eiliodd yr Arweinydd y cynnig.

**PENDERFYNWYD cefnogi argymhelliad y Pwyllgor Gwaith :-**

- **Bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cymeradwyo Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor o dan adran 13A (1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (DCLlL 1992) - fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad.**
- **ei fod yn dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddiddymu, ailddeddfu a / neu ddiwygio ei Bolisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth y Cyngor.**
- **ei fod yn dirprwyo pwerau i’r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan adran 13A(1)(c) o DCLlL 1992 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau polisi a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru, y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith.**

## 8. Y GYLLIDEB AR GYFER 2018/19 A'R STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio Cyllid gynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19, y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gosod y Dreth Gyngor fel y gwelir yn 8 (a) i (ch) yn y Rhaglen. Dymunai ddiolch i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'i staff am eu gwaith yn paratoi'r gyllideb ac i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Panel Sgriwtini Cyllid ac i'r holl Aelodau Etholedig a oedd wedi mynychu nifer o seminarau a chyfarfodydd ymgynghori lleol sydd wedi digwydd mewn perthynas â'r gyllideb.

Tra'n wynebu cyfrifoldebau newydd a chostau cynyddol ar draws gwasanaethau'r Cyngor, bydd y cynnydd arfaethedig o 4.8% yn y Dreth Gyngor yn sicrhau y gall yr Awdurdod gynnal cyllideb gadarn i ddiogelu gwasanaethau rhag wynebu toriadau mwy difrifol yn y dyfodol. Yr un modd â'r rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cynyddol yn y Gwasanaethau Plant a bydd cynnydd o 0.8% yn y Dreth Gyngor yn cael ei glustnodi o fewn y gyllideb i fodloni'r galw cynyddol yn y gwasanaeth arbennig hwn. Mynegodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Treth Gyngor yr Awdurdod ymysg yr isaf yng Nghymru.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod hi'n gwerthfawrogi ymrwymiad yr Aelodau i gyflawni'r gyllideb arfaethedig hon sydd gerbron y Cyngor. Dywedodd ei bod hi, fel Arweinydd, wedi bod yn ymgynghori'n helaeth ar y cynnig cyllidebol. Credai y bydd y gyllideb yn galluogi'r Cyngor i ddiogelu gwasanaethau i bobl Ynys Môn. Dymuna'r Arweinydd ddiolch i bob Prif Swyddog a Phennaeth Gwasanaeth am eu hymrwymiad i gyflawni'r gyllideb hon sydd wedi bod yn heriol.

Dywedodd y Cynghorydd GO Jones ei fod, yn ystod y broses gychwynnol cynigion cyllidebol ym mis Tachwedd 2017, wedi mynychu'r ymgynghoriad ar y gyllideb yn Ysgol Uwchradd Bodedern a mynegwyd gwerthfawrogiad ynglŷn â'r wybodaeth a roddwyd i'r bobl ifanc a fynychodd y sesiwn. Roedd yn gwerthfawrogi bod y grŵp sy'n rheoli wedi gwrando ar y sylwadau a wnaed gan y cyhoedd mewn perthynas â'r gyllideb gyda dros 700 o sylwadau wedi dod i law. Roedd yn falch bod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu yn erbyn torri'r cyllidebau ar gyfer addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol a bod angen cefnogi'r gwasanaethau hyn. Mynegodd y Cynghorydd Jones ei werthfawrogiad i'r Pwyllgor Gwaith na fydd unrhyw gynnydd yn y ffi i blant deithio i ysgolion / coleg na thoriadau ychwaith i'r gyllideb ar gyfer cynnal adeiladau ysgolion. Mynegodd ei werthfawrogiad ymhellach nad yw'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu cau'r ceginau mewn cartrefi preswyl sy'n eiddo i'r Cyngor. Holodd y Cynghorydd Jones ynghylch y grantiau a dderbyniwyd fel rhan o'r setliad ariannol llywodraeth leol mewn perthynas ag ailgylchu ac addysg. Ymatebodd yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo gan nodi bod rhan helaeth o'r grant ailgylchu wedi trosglwyddo i'r setliad gyda thoriad sylweddol yn cael ei wneud yn y gweddill y bydd ac y bydd yn rhaid i'r Cyngor yn awr ei ariannu o'r gyllideb graidd. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Addysg nad oedd unrhyw grantiau addysg wedi trosglwyddo i'r setliad.

(d) Diwygio’r Gyllideb

Derbyniwyd y gwelliant a ganlyn i'r Gyllideb a gynigiwyd gan Grŵp Annibynnol Ynys Môn ac y cafwyd rhybudd yn ei gylch dan Baragraff 4.3.2.2.11 y Cyfansoddiad fel a ganlyn: -

*"Byddai Grŵp Annibynnol Ynys Môn yn dymuno cynnig cynnydd o 3.8% yn y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.*

*0.8% o'r cynnydd hwn i gael ei neilltuo ar gyfer cyllidebau’r ysgolion;*
*0.2% i'w neilltuo fel arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau plant.*

*Bydd y gwelliant hwn yn cael ei gydbwyso trwy gymryd £400,000 ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn. "*

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen, er y derbynnir bod Treth Gyngor Ynys Môn ymlith yr isaf yng Nghymru, mae’r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn Ynys Môn dros y 6 mlynedd diwethaf wedi bod ddwywaith lefel chwyddiant. Mae'r ffioedd ar gyfer clybiau brecwast ysgolion, bysus i ysgolion / colegau, ffioedd parcio a mynediad i ganolfannau hamdden hefyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Dywedodd ei fod hefyd yn pryderu am fusnesau lleol ar strydoedd mawr yr Ynys sy’n gorfod wynebu cynnydd blynyddol yn eu trethi busnes. Roedd o'r farn y gellir cyflawni lefel y Dreth Gyngor gyda chynnydd o 3.8%. Roedd yr Wrth-blaid hefyd wedi mynychu'r broses ymgynghori ar y Gyllideb ac roedd mwyafrif trigolion Ynys Môn am ddiogelu'r gyllideb addysg er mwyn cynnal yr addysg orau i'w plant. Dywedodd y Cynghorydd Owen ymhellach fod cronfeydd wrth gefn ariannol Ynys Môn yn £6.5m ac y byddai cymryd £400k o'r cronfeydd wrth gefn hyn yn golygu y byddai modd gostwng gan 1% y cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer trigolion yr Ynys. Byddai gwelliant Grŵp yr Wrth-blaid i'r gyllideb yn caniatáu 0.8% ar gyfer cyllideb yr ysgolion a 0.2% ar gyfer y gwasanaethau plant. Dywedodd fod angen cyfnod o atgyfnerthu ar y Gwasanaethau Plant yn dilyn y buddsoddiad sylweddol ynddynt yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bryan Owen at y refeniw o dros £900k a gafwyd o ganlyniad i’r premiwm o 25% ar eiddo sydd wedi bod yn wag yn y tymor hir/ail gartrefi a gyflwynwyd o fis Ebrill 2017; dim ond £170k sydd wedi'i ddyrannu i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf. Dywedodd fod £730k wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyffredinol y Cyngor ar gyfer 2017/18 ond bod proses weinyddol y Cyngor wedi gorwario £1.7m ar y gyllideb. Gofynnodd a yw'r cynnydd yn aelodaeth y Pwyllgor Gwaith yn effeithlon oherwydd y gorwariant hwn yn y gyllideb.

Eiliodd y Cynghorydd R Ll Jones y gwelliant i'r gyllideb gan Grŵp yr Wrth-blaid.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod cronfeydd wrth gefn y Cyngor ar gyfer digwyddiadau annisgwyl a all ddigwydd, megis y tywydd eithafol a gafwyd ddiwedd y llynedd. Cyfeiriodd at y cyllidebau blaenorol pan oedd digartrefedd yn broblem a defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn i fynd i’r afael â’r mater hwnnw. Cyfeiriodd ymhellach at y pwysau ar Wasanaethau Plant y Cyngor gyda chynnydd o 80% yn nifer y plant sy’n derbyn gofal ar Ynys Môn ac fel yr adroddwyd i’r Panel Sgriwtini Plant a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn

dymuno diogelu pobl fregus yn y gymdeithas ac mae'n dod yn fwyfwy anodd a heriol i'r Awdurdod hwn osod cyllideb gyfrifol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni hynny yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd KP Hughes, oherwydd toriadau gan Lywodraeth Cymru i'r gyllideb, nad oes gan y Cyngor unrhyw opsiynau ond i gynyddu'r Dreth Gyngor ar gyfer trigolion yr Ynys. Tra'n derbyn bod yn rhaid i'r Cyngor ddiogelu gwasanaethau statudol, mae'n bwysig bod y Cyngor yn Awdurdod effeithiol. Gofynnodd pam mae'r Awdurdod yn gwario cymaint ar Ymgynghorwyr i wneud gwaith ar ran y Cyngor. Dywedodd fod llawer o'r etholwyr yn dweud mai'r unig wasanaeth y maent yn ei dderbyn gan y Cyngor yw gwagio eu biniau. Mae Grŵp yr Wrth-blaid wedi cyflwyno cynnig diwygiedig ar gyfer cyllideb y Cyngor sy'n ymarferol ac sy'n sicrhau bod y bobl yn cael gwerth am arian gan yr Awdurdod hwn. Dywedodd y Cynghorydd Hughes ymhellach nad oes unrhyw sôn am y refeniw ychwanegol o £250k o incwm rhent y mân-ddaliadau a'r premiwm ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am gyfnod maith / ail gartrefi.

Ategodd y Cynghorydd R Ll Jones y sylwadau a wnaed gan Aelodau Grŵp yr Wrth-blaid mewn perthynas â'r newidiadau i'r gyllideb a chynnydd o 3.8% yn y Dreth Gyngor – cynnydd a dderbyniwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fel un ymarferol ar sail y ffigurau a ddangoswyd gan Grŵp yr Wrth-blaid. Dywedodd mai dim ond 40% o'r gyllideb gyfalaf a wariwyd a bod miliynau o bunnoedd heb eu gwario; gellid gwario'r arian hwn i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor. Dywedodd y Cynghorydd Jones ymhellach fod incwm wedi dod i law o'r stad mân-ddaliadau a'r ardoll ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am gyfnod maith / ail gartrefi. Mae trosglwyddo Carchar Biwmares i'r Cyngor Tref wedi arwain at golli £30k mewn refeniw o'r maes parcio yn y dref am y 5 mlynedd nesaf. Praesept Cyngor Tref Biwmares i'r trigolion yw £28 o gymharu â phraesept Cyngor Tref Caergybi sy'n £109. Mae Cyngor Tref Caergybi wedi cymryd drosodd y parc yn y dref heb unrhyw gymorth ariannol. Dywedodd ymhellach fod y Cyngor yn talu symiau helaeth i Ymgynghorwyr a Staff Asiantaeth i wneud gwaith ar ran yr Awdurdod.

Ymatebodd yr Aelod Portffolio Cyllid i'r cynnig gan Grŵp yr Wrth-blaid i ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn i leihau'r cynnydd y Dreth Gyngor a dywedodd y bydd y cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth, 2018 yn £6.5m, sef y lefel isaf a argymhellir gan y Swyddog Adran 151. Er bod y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn darparu mwy o gyllid ar gyfer y Gwasanaethau Plant, mae'r Cyngor yn wynebu risg o orwariant pellach yn gysylltiedig â'r gwasanaeth penodol hwn ac mae'n bosib y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn gostwng ymhellach o'r herwydd. Byddai'r cynnig gan Grŵp yr Wrth-blaid i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i 3.8%, yn golygu y byddai'n rhaid i'r broses gyllidebol ar gyfer 2019/20 ddechrau dod o hyd i arbedion o £400k ar ben y £3m sydd ei angen yn ystod y flwyddyn honno. Dywedodd ymhellach fod Llywodraeth Cymru wedi rhagweld y bydd gostyngiad pellach o 1.5% yn y grantiau sydd ar gael i awdurdodau lleol yn 2019/20. Disgwylir i'r cynnig tâl llywodraeth leol fod tua 3% eleni a bydd hynny'n rhoi pwysau pellach ar awdurdodau lleol. Fel Aelod Portffolio Cyllid, roedd y Cynghorydd John Griffiths o'r farn y bydd pwysau pellach i wneud arbedion yn y gyllideb ar gyfer 2019/20 a'i bod yn llawer gwell edrych i'r tymor hwy a chynyddu'r Dreth Gyngor ar lefel sy'n gynaliadwy ac i warchod y cronfeydd wrth gefn ar y lefel ddisgwyliedig.

Holodd y Cynghorydd Nicola Roberts ynghylch yr awgrym a wnaed gan Grŵp yr Wrth-blaid fod cynnydd o 3.8% yn y Dreth Gyngor yn gynaliadwy ac yn cael ei gefnogi gan Swyddogion yn y Cyngor ac y byddai'n ymarferol defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol i gadw lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 3.8%. Ymatebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 drwy ddweud fod Grŵp yr Wrth-blaid wedi gofyn a oedd y cynnydd o 3.8% yn ymarferol o fewn rheolau cyllidebol y Cyngor a dywedodd bod hynny'n cydymffurfio â rheolau'r gyllideb ac y gellir defnyddio arian wrth gefn os mai dyna yw dymuniad y Cyngor. Holodd y Cynghorydd Nicola Roberts ymhellach a yw'n risg i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol neu a yw'n fwy synhwyrol i'r Cyngor gynnal y lefel bresennol o arian wrth gefn. Atebodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod ei adroddiad i'r Cyngor yn amlinellu lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol sy'n ofynnol, sy'n cyfateb i £ 6.5m, sef 5% o gyllideb net y Cyngor. Fodd bynnag, efallai y bydd lefel y balansau cyffredinol yn is na'r hyn a nodwyd ond dros y tymor canol, dyma'r lefel isaf o falansau wrth gefn a ddylai fod gan yr Awdurdod. Rhoddodd y Swyddog y prif enghreifftiau o bwysau annisgwyl ar gyllideb y Cyngor, sef gorwariant yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Addysg ynghyd â'r difrod a gafwyd yn ystod y llifogydd eithafol ar yr Ynys ym mis Tachwedd y llynedd. Mae angen i'r Cyngor gael cynllun wrth gefn ar waith i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu gweithredu'n effeithlon o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac i allu fforddio gwasanaethau er lles pobl Ynys Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Shaun Redmond, er mai gweledigaeth y Cyngor hwn yw rhedeg yr Awdurdod fel busnes, mae'n anffodus nad oes unrhyw gystadleuaeth o ffynonellau eraill ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Os yw awdurdodau lleol i redeg eu Cynghorau fel busnes, byddai busnes preifat yn edrych ar ei gostau mewnol yn hytrach na chynyddu'r costau i'w cwsmeriaid. Mae bil Pensiwn Llywodraeth Leol yr awdurdod hwn yn aruthrol ac mae'n rhaid i'r Awdurdod barhau i gyfrannu at y gronfa bensiwn; mae busnesau preifat bellach yn gwrthod i weithwyr newydd gael mynediad i gronfeydd pensiwn. Roedd o'r farn y dylai'r Awdurdod hwn ddilyn yr un fath o system â'r sector preifat. Dywedodd ymhellach fod angen adolygu nifer y Cymorthyddion Dosbarth y mae'r Awdurdod yn eu cyflogi. Dywedodd y Cynghorydd Redmond, fel aelod etholedig yn ardal Caergybi, fod y trigolion y mae ef yn eu cynrychioli yn pryderu ynghylch y cynnydd parhaus yn y Dreth Gyngor am y gwasanaethau a gânt. Gofynnodd pam nad yw'r Awdurdod yn herio llywodraeth ganolog o ran y toriadau parhaus yn y setliadau i lywodraeth leol a disgwyl i drethdalwyr wynebu cynnydd blynyddol yn eu Treth Gyngor. Dywedodd y Cynghorydd Redmond fod y 700 o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y gyllideb eleni wedi mynegi eu dymuniad i ddiogelu'r gyllideb addysg; nid oedd unrhyw sôn am gyllideb y Gwasanaethau Plant. Ategodd sylwadau ei gyd-aelodau yng Ngrŵp yr Wrth-blaid o ran trosglwyddo Carchar a Llys Biwmares i Gyngor Tref Biwmares sydd â'r praesept isaf yn ardal yr awdurdod cyfan. Mae Cyngor Tref Caergybi hefyd wedi cymryd drosodd wasanaethau ac adeiladau gan yr Awdurdod hwn ond mae nhw'n gorfod cynyddu'r praesept i drigolion Caergybi gan £114. Dywedodd fod nifer o siopau yng Nghaergybi bellach yn cael eu defnyddio ond nid oes angen talu trethi busnes am y deuddeg mis cyntaf ac wedi hynny, byddant yn symud i eiddo gwag arall lle na fydd angen talu trethi busnes am flwyddyn arall.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams ei fod yn dymuno ymateb i'r sylwadau a wnaed gan ei gyd-Gynghorydd o ran y cynllun pensiwn llywodraeth leol a gofynnodd sut yr oedd ef yn ystyried y gallai'r Awdurdod hwn roi'r gorau i dalu i mewn i gynllun pensiwn llywodraeth leol cenedlaethol a thynnu buddion o'r fath yn ôl. Dywedodd ymhellach nad oedd yn gyfforddus gorfod pleidleisio i gynyddu'r Dreth Gyngor ond rhoddodd enghraifft, sef pan mae plentyn mewn gofal aciwt, y gost i'r Awdurdod yw £250k. Byddai rhoi dau blentyn mewn gofal yn cyfateb i fwy na'r £ 400k y mae Grŵp yr Wrth-blaid yn argymell y dylid ei dynnu o’r arian wrth gefn a byddai’r arian hwnnw yn diflannu.

Dywedodd y Cynghorydd Peter Rogers fod gan yr awdurdod hwn lawer iawn o asedau a bod angen iddo greu incwm o'r cyfleusterau hyn. Dywedodd bod angen diogleu pobl fregus a threthdalwyr Ynys Môn rhag y cynnydd parhaus yn y Dreth y Cyngor; bydd cyflwyno’r system Credyd Cynhwysol hefyd yn cael effaith ar y bobl hyn. Cyfeiriodd at y llifogydd eithafol a ddigwyddodd ar yr Ynys ar ddiwedd y flwyddyn a'r baich a roddwyd ar bobl sy'n gorfod talu am y difrod i'w cartrefi.

Cadarnhaodd Arweinydd yr Wrth-blaid y newid y mae’r Grŵp yn dymuno ei wneud i’r gyllideb, sef cymryd £400k o’r arian wrth gefn y Cyngor i sicrhau codiad o 3.8% yn y Dreth Gyngor. Os bydd cynnig y Grŵp sy’n arwain i gynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor yn cael ei weithredu, gallai hynny olygu bod siopau lleol ar strydoedd mawr yr ynys yn gorfod cau a bod teuluoedd yn cael anhawster i dalu am bethau sylfaenol. Cynigiodd y Cynghorydd Bryan Owen y newid i’r gyllideb fel y’i nodwyd. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd R Ll Jones.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod nifer o wasanaethau’r Cyngor yn wynebu pwysau cynyddol ar adeg pan mae llai o adnoddau ac ymhlith y rheini, mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n gofalu am y mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Cynigiodd yr Aelod Portffolio Cyllid y gyllideb i’r Cyngor ynghyd â’r argymhellion yn yr adroddiadau. Fe eiliwyd ei gynnig gan yr Arweinydd.

Yn unol â pharagraff 4.1.18.4 y Cyfansoddiad, gofynnodd yr Wrth-blaid am gael cofnodi’r bleidlais ar y cynnig arfaethedig. Ni chafwyd y nifer ofynnol o aelodau i ofyn am bleidlais wedi ei chofnodi.

Yn y bleidlais ddilynol, **PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn y cynigion cyllidebol a’r Strategaeth Rheoli Trysorlys fel y’u cyflwynwyd ar gyfer 2017/18;**

- **Derbyn y penderfyniad drafft mewn perthynas â’r Dreth Gyngor fel yr ymddengys yn (ch) yn y Rhaglen:-**

**PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu’r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn Adran 12 Cynllun Ariannol Tymor Canol ac Adran 13 y Gyllideb 2018/19, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, ac i gadarnhau y daw’n rhan o’r fframwaith cyllidebol gyda’r eithriad o’r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb refeniw 2018/19 fel y gwelir honno yn Atodiad 4 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2018/19.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, i fabwysiadu cyllideb cyfalaf fel y gwelir hwnnw yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2018/19.

**(ch)** Dirprwyo i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn Atodiad 4 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2018/19 er mwyn rhoi effaith i benderfyniadau'r Cyngor.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2018/19, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

**(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 4 Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Gyllideb 2018/19 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;

**(ii)** pwerau i gymeradwyo'r defnydd o'r arian wrth gefn clustnodedig a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant unwaith-ac-am-byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo o'r ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2018/19 ac ar gyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), y pŵer i ryddhau hyd at £500k o falansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau yn codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2019, y pwerau a ganlyn:-

**(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;

**(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2018/19 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion pwyllog a rhai'r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynnau am 2018/19 ymlaen fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018/19.

**(ff)** Cymeradwyo'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2018/19.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2018/19 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, bod y Cyngor Sir yn pennu lefel y disgownt sy'n gymwys i'r Dosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Penodedig B | Dim Disgownt |

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2018/19, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 bod y Cyngor Sir yn pennu lefel disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig C o anheddau dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygiad) 2004, fel a ganlyn:-

Dosbarth Penodedig C  Dim Disgownt

**4.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2018/19, benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2016 i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt(iau) a roddwyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau â breswylir yn gyfnodol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) a gosod swm uwch o'r Dreth Gyngor (a elwir yn Premiwm y Dreth Gyngor) o 25% o raddfa safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor ac anheddau â breswylir yn gyfnodol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) dan Adrannau 12A a 12B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adain 139 Deddf Tai (Cymru) 2014.

**5.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau yr aiff y Cyngor iddynt mewn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**6.** Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2017 wedi cymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19 a nodi ymhellach bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2017 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am 2018/19. Nodwyd hefyd fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol Dreth Gyngor lleol dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**7.** Yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd 2017, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau)(Cymru)(Diwygiad) 2004, a'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sail y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygiad) 2016, gymeradwyo'r symiau a glandrwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei sail dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2018/19, fel a ganlyn:-

**a)** 30,773.31 yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail y dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Y rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a glandrwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sail ar gyfer dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, yw fel a ganlyn:-

| | |
|---|---:|
| Amlwch | 1,474.10 |
| Biwmares | 1,061.76 |
| Caergybi | 3,847.36 |
| Llangefni | 1,920.50 |
| Porthaethwy | 1,406.50 |
| Llanddaniel-fab | 367.43 |
| Llanddona | 373.78 |
| Cwm Cadnant | 1,163.31 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,300.75 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 683.71 |
| Bodorgan | 451.48 |
| Llangoed | 650.28 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | 607.78 |
| Llanidan | 410.02 |
| Rhosyr | 989.60 |
| Penmynydd | 238.97 |
| Pentraeth | 555.87 |
| Moelfre | 617.45 |
| Llanbadrig | 660.71 |
| Llanddyfnan | 499.45 |
| Llaneilian | 553.29 |

| | |
|---|---|
| Llannerch-y-medd | 521.77 |
| Llaneugrad | 180.08 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,802.82 |
| Cylch y Garn | 396.33 |
| Mechell | 538.24 |
| Rhos-y-bol | 474.13 |
| Aberffraw | 292.45 |
| Bodedern | 426.29 |
| Bodffordd | 417.41 |
| Trearddur | 1,274.47 |
| Tref Alaw | 251.64 |
| Llanfachraeth | 222.77 |
| Llanfaelog | 1,259.89 |
| Llanfaethlu | 284.08 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 557.91 |
| Y Fali | 976.38 |
| Bryngwran | 353.35 |
| Rhoscolyn | 355.61 |
| Trewalchmai | 353.59 |

**8.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £193,604,572 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £ 61,398,373 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) a (c) y Ddeddf.

**c)** £132,206,199 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 8(a) uchod a chyfanswm 8(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £95,811,837 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig, gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £1,182.66 sef y swm yn 8(c) uchod llai'r swm yn 8(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef swm sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £1,306,243 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

e) £1,140.21 sef y swm yn 8(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 8(dd) uchod â'r swm yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef swn sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

**f)**

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **D** |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,202.67 |
| Biwmares | £ | 1,166.94 |
| Caergybi | £ | 1,255.05 |
| Llangefni | £ | 1,213.20 |
| Porthaethwy | £ | 1,204.29 |

f) **Rhan o Ardal y Cyngor**

| | | D |
|---|---|---|
| Llanddaniel-fab | £ | 1,162.26 |
| Llanddona | £ | 1,155.33 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,167.21 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,172.43 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,165.41 |
| Bodorgan | £ | 1,159.20 |
| Llangoed | £ | 1,156.50 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,153.35 |
| Llanidan | £ | 1,162.17 |
| Rhosyr | £ | 1,166.85 |
| Penmynydd | £ | 1,166.31 |
| Pentraeth | £ | 1,168.92 |
| Moelfre | £ | 1,159.20 |
| Llanbadrig | £ | 1,179.54 |
| Llanddyfnan | £ | 1,153.98 |
| Llaneilian | £ | 1,161.81 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,164.60 |
| Llaneugrad | £ | 1,162.35 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,168.83 |
| Cylch y Garn | £ | 1,156.86 |
| Mechell | £ | 1,156.41 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,155.96 |
| Aberffraw | £ | 1,165.86 |
| Bodedern | £ | 1,163.61 |
| Bodffordd | £ | 1,160.37 |
| Trearddur | £ | 1,165.59 |
| Tref Alaw | £ | 1,164.51 |
| Llanfachraeth | £ | 1,167.48 |
| Llanfaelog | £ | 1,167.57 |
| Llanfaethlu | £ | 1,160.37 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,162.62 |
| Y Fali | £ | 1,173.78 |
| Bryngwran | £ | 1,168.20 |
| Rhoscolyn | £ | 1,150.02 |
| Trewalchmai | £ | 1,158.57 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

| f f ) Rhan o Ardal y Cyngor (ff) | | Bandiau Prisiau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Amlwch | £ | 801.78 | 935.41 | 1,069.04 | 1,202.67 | 1,469.93 | 1,737.19 | 2,004.45 | 2,405.34 | 2,806.23 |
| Biwmares | £ | 777.96 | 907.62 | 1,037.28 | 1,166.94 | 1,426.26 | 1,685.58 | 1,944.90 | 2,333.88 | 2,722.86 |
| Caergybi | £ | 836.70 | 976.15 | 1,115.60 | 1,255.05 | 1,533.95 | 1,812.85 | 2,091.75 | 2,510.10 | 2,928.45 |
| Llangefni | £ | 808.80 | 943.60 | 1,078.40 | 1,213.20 | 1,482.80 | 1,752.40 | 2,022.00 | 2,426.40 | 2,830.80 |
| Porthaethwy | £ | 802.86 | 936.67 | 1,070.48 | 1,204.29 | 1,471.91 | 1,739.53 | 2,007.15 | 2,408.58 | 2,810.01 |
| Llanddaniel-fab | £ | 774.84 | 903.98 | 1,033.12 | 1,162.26 | 1,420.54 | 1,678.82 | 1,937.10 | 2,324.52 | 2,711.94 |
| Llanddona | £ | 770.22 | **898.59** | 1,026.96 | 1,155.33 | 1,412.07 | 1,668.81 | 1,925.55 | 2,310.66 | 2,695.77 |
| Cwm Cadnant | £ | 778.14 | 907.83 | 1,037.52 | 1,167.21 | 1,426.59 | 1,685.97 | 1,945.35 | 2,334.42 | 2,723.49 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 781.62 | 911.89 | 1,042.16 | 1,172.43 | 1,432.97 | 1,693.51 | 1,954.05 | 2,344.86 | 2,735.67 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 776.94 | 906.43 | 1,035.92 | 1,165.41 | 1,424.39 | 1,683.37 | 1,942.35 | 2,330.82 | 2,719.29 |
| Bodorgan | £ | 772.80 | 901.60 | 1,030.40 | 1,159.20 | 1,416.80 | 1,674.40 | 1,932.00 | 2,318.40 | 2,704.80 |
| Llangoed | £ | 771.00 | 899.50 | 1,028.00 | 1,156.50 | 1,413.50 | 1,670.50 | 1,927.50 | 2,313.00 | 2,698.50 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 768.90 | 897.05 | 1,025.20 | 1,153.35 | 1,409.65 | 1,665.95 | 1,922.25 | 2,306.70 | 2,691.15 |
| Llanidan | £ | 774.78 | 903.91 | 1,033.04 | 1,162.17 | 1,420.43 | 1,678.69 | 1,936.95 | 2,324.34 | 2,711.73 |
| Rhosyr | £ | 777.90 | 907.55 | 1,037.20 | 1,166.85 | 1,426.15 | 1,685.45 | 1,944.75 | 2,333.70 | 2,722.65 |
| Penmynydd | £ | 777.54 | 907.13 | 1,036.72 | 1,166.31 | 1,425.49 | 1,684.67 | 1,943.85 | 2,332.62 | 2,721.39 |
| Pentraeth | £ | 779.28 | 909.16 | 1,039.04 | 1,168.92 | 1,428.68 | 1,688.44 | 1,948.20 | 2,337.84 | 2,727.48 |
| Moelfre | £ | 772.80 | 901.60 | 1,030.40 | 1,159.20 | 1,416.80 | 1,674.40 | 1,932.00 | 2,318.40 | 2,704.80 |
| Llanbadrig | £ | 786.36 | 917.42 | 1,048.48 | 1,179.54 | 1,441.66 | 1,703.78 | 1,965.90 | 2,359.08 | 2,752.26 |
| Llanddyfnan | £ | 769.32 | 897.54 | 1,025.76 | 1,153.98 | 1,410.42 | 1,666.86 | 1,923.30 | 2,307.96 | 2,692.62 |
| Llaneilian | £ | 774.54 | 903.63 | 1,032.72 | 1,161.81 | 1,419.99 | 1,678.17 | 1,936.35 | 2,323.62 | 2,710.89 |
| Llannerch-y-medd | £ | 776.40 | 905.80 | 1,035.20 | 1,164.60 | 1,423.40 | 1,682.20 | 1,941.00 | 2,329.20 | 2,717.40 |
| Llaneugrad | £ | 774.90 | 904.05 | 1,033.20 | 1,162.35 | 1,420.65 | 1,678.95 | 1,937.25 | 2,324.70 | 2,712.15 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 779.22 | 909.09 | 1,038.96 | 1,168.83 | 1,428.57 | 1,688.31 | 1,948.05 | 2,337.66 | 2,727.27 |
| Cylch y Garn | £ | 771.24 | 899.78 | 1,028.32 | 1,156.86 | 1,413.94 | 1,671.02 | 1,928.10 | 2,313.72 | 2,699.34 |
| Mechell | £ | 771.12 | 899.64 | 1,028.16 | 1,156.68 | 1,413.72 | 1,670.76 | 1,927.80 | 2,313.36 | 2,698.92 |
| Rhos-y-bol | £ | 770.64 | 899.08 | 1,027.52 | 1,155.96 | 1,412.84 | 1,669.72 | 1,926.60 | 2,311.92 | 2,697.24 |
| Aberffraw | £ | 777.24 | 906.78 | 1,036.32 | 1,165.86 | 1,424.94 | 1,684.02 | 1,943.10 | 2,331.72 | 2,720.34 |
| Bodedern | £ | 775.74 | 905.03 | 1,034.32 | 1,163.61 | 1,422.19 | 1,680.77 | 1,939.35 | 2,327.22 | 2,715.09 |
| Bodffordd | £ | 773.58 | 902.51 | 1,031.44 | 1,160.37 | 1,418.23 | 1,676.09 | 1,933.95 | 2,320.74 | 2,707.53 |
| Trearddur | £ | 777.06 | 906.57 | 1,036.08 | 1,165.59 | 1,424.61 | 1,683.63 | 1,942.65 | 2,331.18 | 2,719.71 |
| Tref Alaw | £ | 776.34 | 905.73 | 1,035.12 | 1,164.51 | 1,423.29 | 1,682.07 | 1,940.85 | 2,329.02 | 2,717.19 |
| Llanfachraeth | £ | 778.32 | 908.04 | 1,037.76 | 1,167.48 | 1,426.92 | 1,686.36 | 1,945.80 | 2,334.96 | 2,724.12 |
| Llanfaelog | £ | 778.38 | 908.11 | 1,037.84 | 1,167.57 | 1,427.03 | 1,686.49 | 1,945.95 | 2,335.14 | 2,724.33 |
| Llanfaethlu | £ | 773.58 | 902.51 | 1,031.44 | 1,160.37 | 1,418.23 | 1,676.09 | 1,933.95 | 2,320.74 | 2,707.53 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 775.08 | 904.26 | 1,033.44 | 1,162.62 | 1,420.98 | 1,679.34 | 1,937.70 | 2,325.24 | 2,712.78 |
| Y Fali | £ | 782.52 | 912.94 | 1,043.36 | 1,173.78 | 1,434.62 | 1,695.46 | 1,956.30 | 2,347.56 | 2,738.82 |
| Bryngwran | £ | 778.80 | 908.60 | 1,038.40 | 1,168.20 | 1,427.80 | 1,687.40 | 1,947.00 | 2,336.40 | 2,725.80 |
| Rhoscolyn | £ | 766.68 | 894.46 | 1,022.24 | 1,150.02 | 1,405.58 | 1,661.14 | 1,916.70 | 2,300.04 | 2,683.38 |
| Trewalchmai | £ | 772.38 | 901.11 | 1,029.84 | 1,158.57 | 1,416.03 | 1,673.49 | 1,930.95 | 2,317.14 | 2,703.33 |

sef  y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 8(e) a 8(f) uchod a'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn gyda golwg ar y categorïau o anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.**9.** Y dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2018/19, fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

| **Awdurdod Praeseptio** | | **Bandiau Prisiau** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 172.08 | 200.76 | 229.44 | 258.12 | 315.48 | 372.84 | 430.20 | 516.24 | 602.28 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar

gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/19 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

**Bandiau Prisiau**

| **Rhan o Ardal y Cyngor** | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amlwch | £ | 973.86 | 1,136.17 | 1,298.48 | 1,460.79 | 1,785.41 | 2,110.03 | 2,434.65 | 2,921.58 | 3,408.51 |
| Biwmares | £ | 950.04 | 1,108.38 | 1,266.72 | 1,425.06 | 1,741.74 | 2,058.42 | 2,375.10 | 2,850.12 | 3,325.14 |
| Caergybi | £ | 1,008.78 | 1,176.91 | 1,345.04 | 1,513.17 | 1,849.43 | 2,185.69 | 2,521.95 | 3,026.34 | 3,530.73 |
| Llangefni | £ | 980.88 | 1,144.36 | 1,307.84 | 1,471.32 | 1,798.28 | 2,125.24 | 2,452.20 | 2,942.64 | 3,433.08 |
| Porthaethwy | £ | 974.94 | 1,137.43 | 1,299.92 | 1,462.41 | 1,787.39 | 2,112.37 | 2,437.35 | 2,924.82 | 3,412.29 |
| Llanddaniel-fab | £ | 946.92 | 1,104.74 | 1,262.56 | 1,420.38 | 1,736.02 | 2,051.66 | 2,367.30 | 2,840.76 | 3,314.22 |
| Llanddona | £ | 942.30 | 1,099.35 | 1,256.40 | 1,413.45 | 1,727.55 | 2,041.65 | 2,355.75 | 2,826.90 | 3,298.05 |
| Cwm Cadnant | £ | 950.22 | 1,108.59 | 1,266.96 | 1,425.33 | 1,742.07 | 2,058.81 | 2,375.55 | 2,850.66 | 3,325.77 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 953.70 | 1,112.65 | 1,271.60 | 1,430.55 | 1,748.45 | 2,066.35 | 2,384.25 | 2,861.10 | 3,337.95 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 949.02 | 1,107.19 | 1,265.36 | 1,423.53 | 1,739.87 | 2,056.21 | 2,372.55 | 2,847.06 | 3,321.57 |
| Bodorgan | £ | 944.88 | 1,102.36 | 1,259.84 | 1,417.32 | 1,732.28 | 2,047.24 | 2,362.20 | 2,834.64 | 3,307.08 |
| Llangoed | £ | 943.08 | 1,100.26 | 1,257.44 | 1,414.62 | 1,728.98 | 2,043.34 | 2,357.70 | 2,829.24 | 3,300.78 |
| Llangristiolus a | £ | 940.98 | 1,097.81 | 1,254.64 | 1,411.47 | 1,725.13 | 2,038.79 | 2,352.45 | 2,822.94 | 3,293.43 |
| Llanidan | £ | 946.86 | 1,104.67 | 1,262.48 | 1,420.29 | 1,735.91 | 2,051.53 | 2,367.15 | 2,840.58 | 3,314.01 |
| Rhosyr | £ | 949.98 | 1,108.31 | 1,266.64 | 1,424.97 | 1,741.63 | 2,058.29 | 2,374.95 | 2,849.94 | 3,324.93 |
| Penmynydd | £ | 949.62 | 1,107.89 | 1,266.16 | 1,424.43 | 1,740.97 | 2,057.51 | 2,374.05 | 2,848.86 | 3,323.67 |
| Pentraeth | £ | 951.36 | 1,109.92 | 1,268.48 | 1,427.04 | 1,744.16 | 2,061.28 | 2,378.40 | 2,854.08 | 3,329.76 |
| Moelfre | £ | 944.88 | 1,102.36 | 1,259.84 | 1,417.32 | 1,732.28 | 2,047.24 | 2,362.20 | 2,834.64 | 3,307.08 |
| Llanbadrig | £ | 958.44 | 1,118.18 | 1,277.92 | 1,437.66 | 1,757.14 | 2,076.62 | 2,396.10 | 2,875.32 | 3,354.54 |
| Llanddyfnan | £ | 941.40 | 1,098.30 | 1,255.20 | 1,412.10 | 1,725.90 | 2,039.70 | 2,353.50 | 2,824.20 | 3,294.90 |
| Llaneilian | £ | 946.62 | 1,104.39 | 1,262.16 | 1,419.93 | 1,735.47 | 2,051.01 | 2,366.55 | 2,839.86 | 3,313.17 |
| Llannerch-y-medd | £ | 948.48 | 1,106.56 | 1,264.64 | 1,422.72 | 1,738.88 | 2,055.04 | 2,371.20 | 2,845.44 | 3,319.68 |
| Llaneugrad | £ | 946.98 | 1,104.81 | 1,262.64 | 1,420.47 | 1,736.13 | 2,051.79 | 2,367.45 | 2,840.94 | 3,314.43 |
| Llanfair Mathafarn | £ | 951.30 | 1,109.85 | 1,268.40 | 1,426.95 | 1,744.05 | 2,061.15 | 2,378.25 | 2,853.90 | 3,329.55 |
| Cylch y Garn | £ | 943.32 | 1,100.54 | 1,257.76 | 1,414.98 | 1,729.42 | 2,043.86 | 2,358.30 | 2,829.96 | 3,301.62 |
| Mechell | £ | 943.20 | 1,100.40 | 1,257.60 | 1,414.80 | 1,729.20 | 2,043.60 | 2,358.00 | 2,829.60 | 3,301.20 |
| Rhos-y-bol | £ | 942.72 | 1,099.84 | 1,256.96 | 1,414.08 | 1,728.32 | 2,042.56 | 2,356.80 | 2,828.16 | 3,299.52 |
| Aberffraw | £ | 949.32 | 1,107.54 | 1,265.76 | 1,423.98 | 1,740.42 | 2,056.86 | 2,373.30 | 2,847.96 | 3,322.62 |
| Bodedern | £ | 947.82 | 1,105.79 | 1,263.76 | 1,421.73 | 1,737.67 | 2,053.61 | 2,369.55 | 2,843.46 | 3,317.37 |
| Bodffordd | £ | 945.66 | 1,103.27 | 1,260.88 | 1,418.49 | 1,733.71 | 2,048.93 | 2,364.15 | 2,836.98 | 3,309.81 |
| Trearddur | £ | 949.14 | 1,107.33 | 1,265.52 | 1,423.71 | 1,740.09 | 2,056.47 | 2,372.85 | 2,847.42 | 3,321.99 |
| Tref Alaw | £ | 948.42 | 1,106.49 | 1,264.56 | 1,422.63 | 1,738.77 | 2,054.91 | 2,371.05 | 2,845.26 | 3,319.47 |
| Llanfachraeth | £ | 950.40 | 1,108.80 | 1,267.20 | 1,425.60 | 1,742.40 | 2,059.20 | 2,376.00 | 2,851.20 | 3,326.40 |
| Llanfaelog | £ | 950.46 | 1,108.87 | 1,267.28 | 1,425.69 | 1,742.51 | 2,059.33 | 2,376.15 | 2,851.38 | 3,326.61 |
| Llanfaethlu | £ | 945.66 | 1,103.27 | 1,260.88 | 1,418.49 | 1,733.71 | 2,048.93 | 2,364.15 | 2,836.98 | 3,309.81 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 947.16 | 1,105.02 | 1,262.88 | 1,420.74 | 1,736.46 | 2,052.18 | 2,367.90 | 2,841.48 | 3,315.06 |
| Y Fali | £ | 954.60 | 1,113.70 | 1,272.80 | 1,431.90 | 1,750.10 | 2,068.30 | 2,386.50 | 2,863.80 | 3,341.10 |
| Bryngwran | £ | 950.88 | 1,109.36 | 1,267.84 | 1,426.32 | 1,743.28 | 2,060.24 | 2,377.20 | 2,852.64 | 3,328.08 |
| Rhoscolyn | £ | 938.76 | 1,095.22 | 1,251.6 | 1,408.14 | 1,721.06 | 2,033.98 | 2,346.90 | 2,816.28 | 3,285.66 |
| Trewalchmai | £ | 944.46 | 1,101.87 | 1,259.2 | 1,416.69 | 1,731.51 | 2,046.33 | 2,361.15 | 2,833.38 | 3,305.61 |

*(Fe wnaeth y Cynghorydd Glyn Haynes ymatal rhag pleidleisio).*

**9. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN – RHEOLI TRYSORLYS 2017/18**

Cyflwynwyd ar gyfer ei dderbyn gan y Cyngor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151 yn cynnwys adolygiad o'r sefyllfa canol blwyddyn mewn perthynas â gweithgareddau rheoli trysorlys.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn – Rheoli Trysorlys 2017/18.**

**10. NEWIDIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR - DIRPRWYO I'R PENNAETH GWASANAETH (TAI)**

Cyflwynwyd i'r Cyngor gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro) mewn perthynas â newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 29 Ionawr, 2018 wedi penderfynu cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad yn Atodiad B yr adroddiad ac i argymell y newidiadau i'r Cyngor llawn.

**PENDERFYNWYD rhoi'r awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro wneud y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a'u cyhoeddi fel y nodir ym Mhapur B yr adroddiad.**

**11. DATGANIAD POLISI TÂL 2018**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol i'r Cyngor gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol bod raid i awdurdodau, dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, gynhyrchu a chyhoeddi polisi tâl ar holl agweddau'r Gydnabyddiaeth Ariannol i Brif Swyddogion.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl am 2018/19.**

**12. AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas ag Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 13 Rhagfyr, 2017.

Nodwyd, yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru dan Adran 6(1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, bod angen i'r Cyngor adolygu a chynnal arolwg ymysg Aelodau o leiaf unwaith bob tymor ynghylch amseriad cyfarfodydd.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Arweinyddion Grwpiau a gynhaliwyd ar 26 Hydref, 2017, y cynhaliwyd arolwg ymysg yr holl Aelodau i 'mofyn eu sylwadau. Roedd yr

opsiynau'n cynnwys cychwyn cyfarfodydd am 10.00 am; 2.00 pm; 4.00 pm a 6.00 pm.  Derbyniwyd 13 o ymatebion (43%).  Trafododd Aelodau'r Pwyllgor yr opsiynau a oedd ar gael a chytunwyd i lynu wrth y trefniadau cyfredol gyda'r ddau Bwyllgor Sgriwtini yn cychwyn am 2.00 pm ac na fydd unrhyw newidiadau i amseriad cyfarfodydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD glynu wrth y trefniadau cyfredol mewn perthynas ag amseriad cyfarfodydd y Cyngor.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45 o'r gloch

**Y CYNGHORYDD RICHARD O JONES**
**CADEIRYDD**